# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2024

## Rhagarweiniad

Mae ein cod Llywodraethu Corfforaethol (y Cod) yn nodi safonau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r safonau hyn yn sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gwneud y pethau iawn, y ffordd iawn ar yr amser iawn, gan sicrhau ein bod yn gynhwysol, agored ac effeithiol.

## Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor

Mae'r Cod yn seiliedig ar y saith egwyddor llywodraethu a nodir yng nghyhoeddiad CIPFA/SOLACE sef Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2016.

Mae'r egwyddorion (A i G) a'r is-egwyddorion (A1 i G3) wedi'u nodi isod, ynghyd â thystiolaeth sut allwn ddangos ein bod yn cyflawni'r egwyddorion hyn.

## Mae egwyddor A yn gofyn i ni "Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith"

### A1 - Ymddwyn gydag uniondeb

- Mae gennym Gyfansoddiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a beth yw'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.
- Mae gennym brotocol sy'n rheoli'r berthynas rhwng Aelodau a swyddogion.
- Mae yna broses, a chofrestr o gysylltiadau personol a busnes (mewnrwyd).
- Mae yna broses ar gyfer datgan cysylltiadau mewn cyfarfodydd pwyllgorau sy'n cael ei chofnodi yn y cofnodion.
- Mae yna bolisi a gweithdrefnau corfforaethol cysylltiedig ar gyfer sicrhau y gellir gwneud cwynion ac y byddant yn cael eu hymchwilio'n ddiduedd, ac ar gyfer sicrhau y gellir rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith.
- Nod ein tîm Archwilio Mewnol yw cyflawni rôl sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol, annibynnol gyda'r nod o ychwanegu gwerth a gwella ein

gweithrediadau. Mae'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion trwy ymdriniaeth systematig a disgyblaethol tuag at werthuso a gwella effeithlonrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.

## A2. Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol

- Mae gennym hyfforddiant ar Cod Ymddygiad a Hyfforddiant Moeseg (ar y fewnrwyd) ar gyfer aelodau sy'n cael ei grybwyll yn ystod cwrs sefydlu'r aelodau ac mae'n rhaid i bob aelod lofnodi i gydnabod eu bod wedi cwblhau'r cwrs. Mae'n orfodol i'r holl aelodau gael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad hefyd. (Mewnrwyd)
- Mae gennym hefyd god ymddygiad cynllunio,
- Mae gennym Bwyllgor Safonau sy'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr drwy'r Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Rydym yn cynnal rhaglen Sefydlu Staff sy'n cwmpasu gwerthoedd ymddygiadol Conwy, fframwaith cymhwysedd, yr hyn a ddisgwylir gan weithwyr y sector cyhoeddus, y llyfryn parch, y polisi disgyblu a rheoliadau ariannol.
- Mae gennym god ymddygiad ar gyfer gweithwyr.
- Mae gennym Werthoedd Corfforaethol a rennir â'r holl Aelodau a Staff ac sy'n cynnal pob agwedd ar wasanaethau'r Cyngor.

## A3. Parchu rheol y gyfraith

- Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yw'r 'Swyddog Monitro' penodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig.
- Rhoddir swydd-ddisgrifiadau i bob swyddog statudol sy'n nodi'n glir eu cyfrifoldebau deddfwriaethol a rheoliadol.
- Mae gennym Reolau Gweithdrefnau Contract (mewnrwyd) a gwneir Datganiadau o Gysylltiad mewn Cyfarfodydd.
- Rydym yn darparu rhaglen i sefydlu Aelodau newydd
- Mae yna Bolisi Rhannu Pryderon (mewnrwyd)
- Mae gennym Bolisi Anrhegion a Lletygarwch (mewnrwyd)
- Mae yna Strategaeth Atal Twyll (mewnrwyd) sy'n pennu cyfrifoldebau aelodau etholedig a staff wrth hyrwyddo diwylliant sy'n seiliedig ar onestrwydd ac uniondeb, ac mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer Atal Gwyngalchu Arian (mewnrwyd)

- Mae gennym hefyd Strategaeth Diogelwch TGCh (mewnrwyd) sydd â'r nod o ddiogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd y systemau TG, asedau electronig a gwybodaeth ar draws yr Awdurdod

## Mae egwyddor B yn gofyn i ni "Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr"

### B1 Bod yn agored

- Cynhelir pob un o gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor. Mae pob cyfarfod yn gweithredu gan ddilyn model hybrid.

- Yn unol â Chonwy Cynhwysol, - (ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol), mae'n rhaid asesu effaith pob penderfyniad allweddol ar nodweddion a ddiogelir. Mae gennym asesiad o effaith ar gydraddoldeb integredig sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd ar 31 Mawrth 2021.

- Mae Grŵp Adolygu Adroddiadau'n adolygu pob adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sicrhau eu bod o safon ddigon uchel.

- Rydym yn gwe-ddarlledu cyfarfodydd democrataidd allweddol a'u recordio. Mae pob cyfarfod yn gweithredu gan ddilyn model hybrid.

- Mae gan bob pwyllgor Raglen Waith.

- Mae yna Gofnod o Benderfyniadau -cymerir cofnodion ym mhob cyfarfod a'u cadw ar Modern.gov

- Mae'r cyhoedd yn gallu gofyn am wybodaeth o dan y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth

### B2 Ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid sefydliadol

- Rydym yn cynnal perthnasoedd â budd-ddeiliaid sefydliadol ac yn cymryd rhan mewn nifer o drefniadau cydweithio er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y gymuned. Ceir canllawiau ynglŷn â gweithredu trefniadau cydweithio (mewnrwyd) sy'n egluro ein dull o sicrhau y cyflawnir gwerth am arian a threfniadau llywodraethu da a bod blaenoriaethau a gwerthoedd yr Awdurdod yn cael eu hyrwyddo a'u gwarchod wrth weithio mewn partneriaeth. Rydym yn adolygu'r holl drefniadau cydweithio allweddol yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas.

- Rydym yn bartneriaid yn y cyrff cydweithredol canlynol:
    - Y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Cydweithredfa Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru
- Y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol - Gwe
- Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy
- Mae Partneriaeth Tai Strategol yn cyfrannu at weithredu Strategaeth Dai Leol Conwy

## **B3** Ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth unigol yn effeithiol

- Mae Ymgysylltu â'r Gymuned wedi bod yn hanfodol bwysig yn natblygiad pob cynllun strategol a phenderfyniad allweddol. Mae sicrhau bod pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys a'u gwrando arnynt ac yn gallu gwneud cyfraniad gweithredol yn un o naw canlyniad i ddinasyddion yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027. Rydym wedi sefydlu:

  - Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Trosolwg a Chraffu (mewnrwyd)
  - Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
  - Strategaeth Cynnwys y Gymuned
  - Rydym yn rhan o Banel Dinasyddion Gogledd Cymru;
  - Mae pump Fforwm Ardal Leol (mewnrwyd)
  - Mae gennym brosesau ar gyfer Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth;
  - Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol;
  - Meddalwedd dwyieithog ar gyfer e-ddeisebau
  - Mae gennym daflenni digidol ar gyfer Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n egluro sut rydym yn rheoli ein cyllideb.
  - Mae gennym bresenoldeb cryf ar gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth ar gyfer Gwella Mynediad at Wasanaethau a Gwybodaeth Cyngor Conwy.
  - Mae gennym system gyfieithu ar y pryd ar gyfer iaith arwyddion ynghyd â fideos ac atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch Iaith Arwyddion Prydain
  - Rydym wedi sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch hygyrchedd.
  - Mae yno weithdrefnau ar waith i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

- Mae gennym Fforwm Rheolwyr a Chydbwyllgor Ymgynghorol (JCC) er mwyn sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd â staff ac Undebau Llafur, ac mae gennym hefyd gynllun awgrymiadau staff.

- Rydym wedi newid ein dulliau gweithredu'n sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf yng nghyswllt moderneiddio, hygyrchedd, bod yn agored ac ymgysylltu, trwy waith y Rhaglen Foderneiddio. Yn sgil gweithredu'r rhaglen mae mwy o gwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau ar-lein ac mae swyddfa cynllun agored wedi agor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Mae Coed Pella wedi ein

galluogi i baratoi ar gyfer y dyfodol a dod â'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau rheng flaen at ei gilydd o dan yr un to.

- Drwy Fframwaith Doethwaith (mewnrwyd), rydym wedi cyflwyno model gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfeydd.

## Mae Egwyddor C yn gofyn i ni ddiffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

### C1 Diffinio Canlyniadau

- Yn ystod pob gweinyddiaeth, rydym yn cyhoeddi Gweledigaeth a Chynllun Corfforaethol strategol pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar brif flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer gwella. Y blaenoriaethau hyn yw Amcanion Lles y Cyngor. Ategir y rhain gan nifer o strategaethau gan wasanaethau penodol.
- Adolygir Strategaeth Ariannol Tymor Canolig bob blwyddyn hefyd.
- Mae gennym Fframwaith Cynllunio Busnes (Mewnrwyd) ar gyfer achosion busnes i'w cynnwys yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.
- Bob blwyddyn mae pob maes gwasanaeth yn llunio cynllun ar gyfer y gwasanaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau

### C2 Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Cofnodir arfarniadau o gynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau strategol mewn cyfres o adroddiadau, gan gynnwys:

- Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad bob chwe mis;
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych;
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Cyllid;
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg;
- Strategaeth Economaidd Conwy;
- Adroddiad Perfformiad Di-garbon Net

## Mae Egwyddor D yn gofyn i ni benderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y canlyniadau a fwriadwyd

### D1 Penderfynu ymyriadau (ffyrdd o weithredu)

- Rydym wedi cymeradwyo Cyfansoddiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a beth yw'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

- Mae strwythur y Pwyllgorau'n nodi sut mae cynghorwyr lleol neu swyddogion dan eu cyfarwyddyd yn gwneud penderfyniadau ac ymyriadau.

- Mae yno bedwar o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu:

  - Cyllid ac Adnoddau
  - Economi a Lle,
  - Addysg a Sgiliau
  - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

- Mae yno dri o bwyllgorau rheoleiddio: Y Pwyllgor Cynllunio; y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae yno hefyd Bwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

- Mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau'n cwrdd ddwywaith y mis i adolygu'r adroddiadau y bwriedir eu cyflwyno i'r Cabinet ac ystyried rhaglenni gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau Craffu. Defnyddir Templed Adroddiad Pwyllgor Safonol (mewnrwyd) ar gyfer pob adroddiad.

- Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol, ynghyd â'r Pennaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Pennaeth Pobl a Pherfformiad, Pennaeth Statudol Addysg a'r Swyddog Monitro yn cyfarfod ddwywaith y mis fel y Tîm Arweinyddiaeth Strategol.

- Mae uwch-reolwyr yr Awdurdod yn cwrdd bob mis fel yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaethau.

- Mae Fforwm Rheolwyr yn cyfarfod bob chwarter blwyddyn i rannu negeseuon a cheisio cysondeb, gwrando ar siaradwyr gwadd allweddol a thrafod datblygiadau rhwng Cyfarwyddwyr a rheolwyr yn y sefydliad.

## D2 Cynllunio ymyriadau

- Cynhelir Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth bob chwe mis er mwyn adolygu cynnydd pob gwasanaeth, risgiau a chyllid (Fframwaith Rheoli Perfformiad) (Mewnrwyd).

- Mae yno grŵp safonau ac effeithiolrwydd ysgolion sy'n adolygu perfformiad ysgolion a'u cefnogi.

- Rydym wedi gweithredu Sgwrs Conwy (mewnrwyd), i gefnogi staff i gyflawni eu hamcanion, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed trwy sgyrsiau rheolaidd gyda'u rheolwr atebol.

- Mae gennym Bolisi Diogelu Corfforaethol a threfniadau cytunedig sy'n galluogi'r Awdurdod i gydymffurfio â'r gofynion statudol ynghylch amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

### D3 Cyflawni'r canlyniadau a fwriedir i'r eithaf

- Rydym yn defnyddio system rheoli perfformiad integredig i gynorthwyo â chynllunio gwasanaethau, rheoli risg, digwyddiadau, archwilio a rheoli prosiectau.
- Mae yno Fframwaith Rheoli Perfformiad sydd â'r nod o gynnig dolen gyswllt glir rhwng cyflawni'r amcanion a osodir ar gyfer swyddogion yn eu cynlluniau datblygu personol, a sut maent yn cyfrannu tuag at gyflawni cynlluniau gwasanaeth sydd yn eu tro'n helpu i gyflawni'r canlyniadau i ddinasyddion yn y Cynllun Corfforaethol.
- Rydym wedi sefydlu Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (mewnrwyd) ac mae'r Fforwm Rheolwyr Rhaglenni a Phrosiectau yn cwrdd bob tri mis.
- Mae Bwrdd Cyfleoedd Conwy'n goruchwylio holl raglenni a phrosiectau'r awdurdod yn strategol ac yn adolygu holl awgrymiadau'r staff.

## Mae egwyddor E yn gofyn i ni ddatblygu gallu'r Cyngor i gyflawni, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

### E1 Datblygu gallu'r Cyngor

- Mae gennym Strategaeth Datblygu Aelodau.
- Mae gennym Strategaeth Pobl sy'n nodi dull yr Awdurdod tuag at ddenu, cefnogi, datblygu a chadw staff er mwyn adeiladu ar y diwylliant 'Tîm Conwy', a gwneud gwahaniaeth ar gyfer pobl Conwy.
- Mae yno gynllun dirprwyo sy'n diffinio'n eglur y mandad ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn bob lefel yn y sefydliad. Cefnogir hyn gan Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a Rheoliadau Ariannol
- Polisi Recriwtio a Dewis (Mewnrwyd).
- Mae yno gyfres o bolisïau Adnoddau Dynol (mewnrwyd) sy'n ymdrin ag amryw agweddau ar reoli staff.
- Mae holl aelodau staff yn derbyn contract, swydd-ddisgrifiad ac yn derbyn gwiriadau 1 i 1 rheolaidd fel rhan o Sgwrs Conwy.

- Cynhelir arolwg staff gynnal bob tair blynedd i geisio barn staff. Fel rhan o adolygiad parhaus i'r model gweithio hybrid, mae arolygon staff ac aelodau rheolaidd wedi cael eu cynnal.

### E2 Datblygu gallu arwain y Cyngor ac unigolion eraill

- Gall yr holl staff gael mynediad at Gynllun Hyfforddiant Corfforaethol (mewnrwyd) sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrsiau i gefnogi datblygiad personol a sefydliadol.
- Mae yno Fforwm Datblygu Aelodau.
- Mae yno Bolisi Rheoli Presenoldeb a gall staff gael mynediad at gwmni allanol sy'n darparu cymorth iechyd galwedigaethol.
- Rydym hefyd yn darparu cymorth i weithwyr a chynllun buddiannau gweithwyr drwy Care First. (Mewnrwyd)

## Mae egwyddor F yn gofyn i ni reoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf

### F1 Rheoli risgiau

- Mae gennym Bolisi a Fframwaith Rheoli Risg (mewnrwyd)
- Adolygir y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol bob chwe mis ac fe'i cyhoeddir drwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae gan yr holl wasanaethau Asesiadau Risg yng nghyswllt Iechyd a Diogelwch.
- Mae gan yr holl wasanaethau gynlluniau parhad busnes a gaiff eu huwchlwytho i Resilience Direct.
- Mae gennym Strategaeth Seibrgadernid.

### F2 Rheoli perfformiad

- Cofnodir arfarniadau o gynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau strategol mewn cyfres o adroddiadau, gan gynnwys:
  - Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad bob chwe mis;
  - Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych;
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol
  - Adroddiadau Cyllid;
  - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg

## F3 Rheolaeth fewnol gadarn

- Mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol â map sicrwydd sy’n cael ei ddefnyddio i lywio’r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol.
- Mae yno Siarter Archwilio Mewnol (mewnrwyd)
- Mae Archwilio Mewnol yn llunio Adroddiadau Perfformiad yn rheolaidd a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae’r Grŵp Gwella ac Archwilio yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol â risgiau a ganfyddir ac argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar gyfer gwella.
- Mae gennym lyfrgell bolisïau er mwyn sicrhau yr adolygir pob polisi mewn pryd.

## F4 Rheoli Data

- Mae gennym Uned Llywodraethu Gwybodaeth sy’n gyfrifol am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ac mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn cwrdd bob tri mis.
- Mae gennym Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth sy’n cynnwys polisïau ynglŷn â gwybodaeth
- Mae hyfforddiant ar reoli gwybodaeth ar gael ar-lein a thrwy sesiynau a ddarperir i’r holl Aelodau Etholedig a staff.
- Mae gennym Bolisi Mesuryddion Perfformiad (mewnrwyd) ar gyfer cofnodi a monitro data yn ogystal ag Uned Ymchwil a Gwybodaeth sy’n darparu data ystadegol a dadansoddiad o anghenion i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau.

## F5 Rheolaeth gref o arian cyhoeddus

- Mae swydd y Prif Swyddog Ariannol (Swyddog S151) wedi’i chynnwys yng nghyfrifoldebau’r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd. Mae’r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol.
- Mae ein trefniadau Rheoli Trysorlys yn seiliedig ar arfer proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu a rheoliadau ariannol yr Awdurdod, megis:
    - Adroddiadau Cyllid
    - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
    - Cynllun Lwfansau Aelodau
    - Strategaeth Rheoli’r Trysorlys
    - Cynllun Rheoli Asedau
    - Datganiad Cyfrifon

- Rheoliadau Ariannol (mewnrwyd)
- Gwybodaeth am Dreth y Cyngor
- Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Mewnrwyd)
- Strategaeth Gaffael Gorfforaethol (Mewnrwyd)

- Mae archwilwyr allanol yn cyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth flynyddol i gadarnhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau ynghylch adroddiadau ariannol.

## Mae egwyddor G yn gofyn i ni weithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

### G1 Gweithredu arferion da ynghylch tryloywder

- Cynhelir pob un o gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor. Mae pob cyfarfod yn gweithredu gan ddilyn model hybrid.

- Mae'r holl raglenni ac adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod, oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig.

- Mae gennym gofrestr cysylltiadau'r aelodau.

- Mae yno Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

- Cwblhaodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Hunanasesiad y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau a grëwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn perthynas ag effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### G2 Gweithredu arferion da wrth adrodd

- Mae Archwilio Mewnol yn llunio Adroddiadau Perfformiad yn rheolaidd a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

- Mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol â risgiau a ganfyddir ac argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar gyfer gwella.

### G3 Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am berfformiad y swyddogaeth graffu er mwyn ei hystyried a'i hadolygu.

- Mae gennym Brotocol Ymgysylltu Trosolwg a Chraffu.

- Rydym yn derbyn Adroddiadau'r Arolygwyr.

- Mae'r Pennaeth Archwilio'n cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar sail adolygiad o effeithiolrwydd ein system rheoli mewnol ac yn rhoi barn (barn archwilio) ynghylch yr amgylchedd rheoli.

- Derbyniwn raglen flynyddol o adolygiadau archwilio allanol, sy'n cynnwys:

  - Adroddiadau Archwilio Cymru
  - Adroddiadau Archwilio Estyn
  - Arolygiaeth Gofal Cymru